

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2021.

Jeremy Miles
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
22 Rhagfyr 2021

1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bydd Rheoliadau Addysg (Diwrnod Ysgol a Blwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2021 yn dod i rym llai na 21 diwrnod ar ôl i'r offeryn cael ei osod. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2003 i ganiatáu i amser yn ystod y tymor gael ei ddyrannu ar gyfer diwrnodau cynllunio er mwyn i ysgolion asesu capasiti staffio a rhoi'r mesurau angenrheidiol ar waith i gefnogi dychwelyd dysgwyr.

Mae gwneud y Rheoliadau diwygio hyn yn golygu y bydd ysgolion yn gallu bodloni'r nifer gofynnol o sesiynau yn ystod blwyddyn ysgol 2021-22 fel y nodir yn Rheoliadau 2003.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwnaed Rheoliadau 2003 o dan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996 a daethant i rym ar 31 Rhagfyr 2003.

Mae rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau hynny yn darparu bod pob diwrnod y mae ysgol yn cyfarfod yn cael ei rannu yn ddwy sesiwn a wahenir gan egwyl yng nghanol y dydd oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn peri nad yw hyn yn ddymunol. Mae rheoliad 4(2) yn darparu bod rhaid cynnal o leiaf 380 o sesiynau mewn ysgol yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol. Mae hyn yn gymwys i bawb ond ysgolion meithrin.

Mae rheoliad 4(3) yn caniatáu ar gyfer ymdrin ag ysgol a rwystrwyd rhag cyfarfod am sesiynau fel y bwriadwyd iddi gyfarfod, fel pe bai wedi cyfarfod yn unol â'r bwriad.

Mae rheoliad 5 yn darparu ar gyfer nifer y diwrnodau hyfforddiant mewn ysgolion, ac mae'r nifer yn cael ei newid o dro i dro er mwyn ystyried y diwygiadau i'r system addysg, megis darparu hyfforddiant ar gyfer y cwricwlwm newydd.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Ar 16 Rhagfyr 2021, cyhoeddais gynlluniau ar gyfer dychweliad dysgwyr yn Ionawr 2022. Roedd y cynlluniau hyn yn cynnwys pennu dau ddiwrnod cynllunio ar ddechrau y tymor ysgol newydd yn Ionawr 2022 er mwyn caniatáu ysgolion i asesu capasiti staffio a rhoi'r trefniadau angenrheidiol mewn lle i gefnogi dychweliad dysgwyr. Bydd rhain hefyd yn sicrhau bod gan ysgolion gynlluniau cadarn mewn lle pe bai tarfu i ddysgu ar y safle dros yr wythnosau a

misoedd i ddod. Heb y Rheoliadau hyn, ni fyddai ysgolion yn cyflawni'r nifer angenrheidiol o sesiynau yn ystod blwyddyn ysgol 2021-22.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2003 drwy ychwanegu rheoliad newydd 7, ei effaith sef i hyd at bedair sesiwn gyfrif fel sesiynau pan gyfarfu'r ysgol os oeddent wedi eu neilltuo i baratoi ysgolion a chynllunio gan athrawon o ganlyniad i drosglwyddiad y coronafeirws yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-22. Rhaid cynnal y sesiynau hyn yn ystod deuddydd cyntaf o ail dymor (gwanwyn) blwyddyn ysgol 2021-22.

Mae'r gofynion sy'n weddill fel y'u nodir yn Rheoliadau 2003 yn parhau'r un fath.

5. Ymgynghori

Yn ystod y cyfnod cyn gosod y Rheoliadau hyn, rydym wedi trafod ag awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys undebau llafur a Chomisiynydd Plant Cymru.

Roedd yr adborth ar y diwrnodau cynllunio yn gyffredinol bositif, ac roedd awdurdodau lleol o'r farn y byddai adolygu cynlluniau wrth gefn a lefelau staffio ar y pwynt hynny – gan blethu hefyd y dealltwriaeth ddiweddaraf ar yr amrywiolyn Omicron – yn help i leihau tarfu yn y tymor hirach.

Gan fod y newidiadau'n berthnasol i'r dychweliad ym mis Ionawr 2022, nid oedd digon o amser i gynnal ymgynghoriad llawn. Nid oedd peidio â gwneud y Rheoliadau hyn yn opsiwn ymarferol gan bod cydnabyddiaeth bod ysgolion angen amser ar ddechrau'r tymor i adolygu a diwygio trefniadau, gan adeiladu'r dealltwriaeth ddiweddaraf o lefelau staffio bryd hynny i'r trefniadau gweithredol. Nid yw union effaith Omicron, ar draws y boblogaeth yn ogystal ag ar gyfer phob ysgol a'i chymuned, yn hysbys ar hyn o bryd. Diwygiad untro i'r Rheoliadau yw hwn, mewn ymateb i effaith pandemig y coronafeirws.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Roedd dau opsiwn i'w ystyried wrth benderfynu p'un a oedd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud.

1. Gwneud dim, a byddai'r ysgolion hynny fyddai'n gwneud defnydd o'r dau ddiwrnod gynllunio hyn wedyn angen ymestyn eu tymor o'r cyfnod addas i gyflawni gofynion Rheoliadau 2003, neu gorffen y tymor ar y dyddiad a fwriedir a wedyn ni fyddent yn cyflawni gofynion Rheoliadau 2003.
2. Gwneud y Rheoliadau er mwyn caniatáu ysgolion i bennu deuddydd ar gyfer cynllunio, fel a nodir uchod.

Costau a manteision Opsiwn 1

Mae costau ariannol i Opsiwn 1. Ar gyfer yr ysgolion hynny sy'n defnyddio deuddydd cyntaf tymor y gwanwyn fel diwrnodau cynllunio, byddai angen i ysgolion ymestyn eu tymor o'r un cyfnod er mwyn cwrdd â gofynion Rheoliadau 2003. Mae'n bosib y byddai costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r estyniad hwn o'r tymor, er enghraifft costau staffio ychwanegol. Mae hefyd yn debygol y byddai oblygiadau cytundebol o alw ar staff i weithio am ddeuddydd ychwanegol yn hwyrach yn ystod y flwyddyn ysgol. Gellid dadlau hefyd y byddai cost i forâl staff trwy ei gwneud yn ofynnol i aelodau staff weithio am ddau ddiwrnod ychwanegol yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn academaidd er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn cyflawni gofynion Rheoliadau 2003.

Mantais gwneud dim yw efallai y byddai hyn yn osgoi colli deuddydd pellach o ddarpariaeth ar y safle yn ystod yr hyn sydd eisoes wedi bod yn flwyddyn wedi ei darfu i lawer o ddysgwyr.

Costau a manteision i Opsiwn 2

Efallai y bydd rhai costau ariannol i'r sector cyhoeddus yn deillio o Opsiwn 2. Efallai y bydd yn rhaid i ysgolion sy'n dewis defnyddio deuddydd cyntaf tymor y gwanwyn 2021-22 aildrefnu digwyddiadau a hyfforddiant a drefnwyd ar gyfer y dyddiau hyn. Efallai y bydd costau hefyd o ganlyniad i'r wneud yr aildrefniadau angenrheidiol ar gyfer trafniadaeth ysgol, darpariaeth arlwyo a gwasanaethau cefnogi eraill. Efallai y bydd costau gofal plant ychwanegol i deuluoedd hefyd os bydd y diwrnodau cynllunio hyn yn arwain at ddysgwyr yn dychwelyd i'r ysgol yn hwyrach na'r disgwyl. Mae'r graddau y bydd teuluoedd yn ysgwyddo cost gofal plant ychwanegol yn debygol o ddeillio o amgylchiadau a dewisiadau unigol. Bydd rhai teuluoedd yn defnyddio aelodau teulu, bydd eraill yn cymryd diwrnod i ffwrdd o'r gwaith neu (lle bo hynny'n bosibl) yn gweithio gartref. Lle mae angen gofal plant â thâl, mae'r gost yn debygol o fod oddeutu £30-40 y plentyn am y dydd.

Mantais Opsiwn 2 yw bod cyfanswm cyfnod y tymor ysgol yn parhau yn ddigyfnewid i bob pwrpas, gyda dysgwyr mewn ysgolion sy'n dewis defnyddio dau ddiwrnod cyntaf tymor y gwanwyn 2021-22 at ddibenion cynllunio ddim yn mynychu safle'r ysgol ar y ddau ddiwrnod hyn.

Mae'r effaith ar y sector cyhoeddus yn ymwneud â sector yr ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion i'r graddau bod y cyrrff hynny'n gyfrifol am ddarparu sesiynau ysgol. O ganlyniad i'r rheoliadau diwygio hyn, gall ysgolion agor i ddysgwyr deuddydd yn hwyrach na'r bwriad yn nhymor gwanwyn 2021-22.

Y Gymraeg

Nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol sy'n benodol i'r Gymraeg.

Hawliau Plant

Rydym wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a byddwn yn ei gyhoeddi maes o law.

Mae gan blant a phobl ifanc hawl i addysg (erthygl 28 o'r CCUHP). Gellid dadlau y gallai colli deuddydd o ddysgu mewn rhai ysgolion gael effaith niweidiol ar ddysgwyr. Fodd bynnag, nod y diwrnodau hyn yw i leihau ar y tarfu ar ddysgu ac addysgu yn y tymor hirach ac fe'i ystyried yn gam pwyllog i adolygu a pharatoi ar gyfer y tymor i ddod.

Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Rydym wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a byddwn yn ei gyhoeddi maes o law. Mae'r prif effeithiau a adnabyddir fel a ganlyn:

Gallai egwyl hanner Nadolig a blwyddyn newydd estynedig effeithio'n andwyol ar grwpiau difreintiedig a'r rhai sy'n agored i niwed. Gall teuluoedd sy'n byw mewn tldi neu'r rheini y mae eu hincwm yn ddibynnol ar yr oriau gwirioneddol a weithiwyd ei chael hi'n anodd darparu gofal plant am y dyddiau ychwanegol hynny.

Mae rhoi gwybod i awdurdodau lleol mor fuan â phosib am y newidiadau hyn wedi rhoi amser ychwanegol i rieni wneud cynlluniau ar gyfer y deuddydd hyn, ac i rai bydd yn golygu bod plant yn dychwelyd i'r ysgol fel a fwriadwyd os yw diwrnodau HMS yn cael eu haildrefnu ar gyfer dyddiadau eraill yn hwyrach yn y flwyddyn ysgol. Rydym hefyd wedi hysbysu awdurdodau lleol ac ysgolion y dylent ar yr ail ddiwrnod ystyried pa ddarpariaeth y gallai fod angen ei rhoi ar waith ar gyfer plant bregus a phlant gweithwyr hanfodol. Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol hefyd roi sylw i anghenion ehangach eu cymuned ac effaith unrhyw benderfyniadau i beidio â rhoi darpariaeth o'r fath ar waith.

O dan Ddeddf Gofal Plant 2006, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru sicrhau bod digon o ofal plant ar gael i helpu rhieni i weithio neu i gael hyfforddiant. Bydd trefniadau yn cael eu cynnal gyda darparwyr gofal plant er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r newid mewn darpariaeth yn ystod y deuddydd hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gydymffurfio â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 drwy gynnal asesiadau effaith a sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau statudol, i ddarparu'r nifer gofynnol o sesiynau ysgol ac i ddarparu gofal plant digonol.

Preifatrwydd

Nid yw'r darpariaethau yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 yn cael eu heffeithio gan estyn y gwelliant i'r Rheoliadau hyn.

Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder

Er na chynhaliwyd Asesiad ffurfiol o'r Effaith ar Gyfiawnder, ni nodwyd unrhyw effeithiau wrth ystyried y Rheoliadau hyn.